Body Positive Gogledd Cymru A Sir Gaer
Cyfansoddiad

1. Enw
Enw'r sefydliad yw Body Positive Gogledd Cymru a Sir Gaer, ac fe gyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'Yr Elusen'

2. Ymddiriedolwyr Daliadau
Bydd teitl pob eiddo tirol neu bersonol sy'n cael ei gaffael gan neu ar ran Yr Elusen yn cael ei osod mewn corfforaeth sydd â hawl gyfreithiol i weithredu fel Ymddiriedolwyr Daliadau, neu o leiaf dri a dim mwy na chwe pherson unigol (heb fod yn aelodau o'r Pwyllgor Rheoli).

3. Amcanion a Grym

3.1. Sefydlwyd Yr Elusen ar gyfer:-

3.1.1. Lleddfu tlodi, afiechyd a thrallod ymysg y rhai sydd wedi'u heintio gan Firws Imiwnoddiffygiant Dynol (HIV), a'r bobl sydd wedi datblygu afiechydon sy''n perthyn i Syndrom Diffyg Imiwnedd Caffaeledig (AIDS) neu sydd wedi eu heffeithio'n bersonol gan HIV/AIDS neu gyflyrau perthnasol

3.1.2. Datblygu addysg y cyhoedd a hyrwyddo ymchwil ym mhob mater perthnasol i effaith heintiad HIV ac AIDS, a'i atal, a dosbarthu canlyniadau defnyddiol ymchwil o'r fath.

3.2. Er mwyn datblygu amcanion o'r fath yn unig, gall yr Elusen:-

3.2.1. Gyflogi a thalu unrhyw berson(au) i arolygu, trefnu a chyflawni gwaith yr Elusen a gwneud pob darpariaeth resymol ac angenrheidiol ar gyfer talu pensiynau i neu ar ran gweithwyr a'u partneriaid gweddw neu ddibynyddion eraill;

3.2.2. Uno cynrychiolwyr sefydliadau gwirfoddol, Adrannau Llywodraeth, awdurdodau statudol ac unigolion mewn cynadleddau;

3.2.3. Hyrwyddo a chyflawni, neu gynorthwyo i hyrwyddo a chyflawni ymchwil, arolygon ac ymchwiliadau, a chyhoeddi canlyniadau defnyddiol ymchwiliadau ac archwiliadau o'r fath;

3.2.4. Trefnu a darparu, neu gynorthwyo i drefnu a darparu ar gyfer cynnal arddangosfeydd, cyfarfodydd, darlithoedd, dosbarthiadau, seminarau a chyrsiau hyfforddi;

3.2.5. Casglu a dosbarthu gwybodaeth ar bob mater sy'n effeithio ar yr amcanion a nodwyd uchod, a chyfnewid y fath wybodaeth gyda chyrff eraill ag amcanion tebyg, yn y Deyrnas Gyfunol neu dramor;

3.2.6. Ymgymryd â, gweithredu, rheoli neu gynorthwyo unrhyw ymddiriedolaeth elusennol y gellir ei ymgymryd, gweithredu, rheoli neu gynorthwyo yn gyfreithlon gan Yr Elusen;

3.2.7. Prynu, cymryd, prydlesu, cyfnewid, llogi neu gaffael mewn unrhyw ffordd arall, unrhyw eiddo ac unrhyw hawliau a breintiau angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo amcanion o'r fath, ac adeiladu, cynnal ac addasu unrhyw adeiladau angenrheidiol ar gyfer gwaith Yr Elusen;

3.2.8. Gwneud rheoliadau ar gyfer unrhyw eiddo y gellir ei gaffael felly;

3.2.9. Gwerthu, gosod, gwaredu morgais neu droi i gyfrif holl neu unrhyw eiddo neu asedau Yr Elusen;

3.2.10. Derbyn rhoddion a benthyg neu godi arian ar gyfer amcanion o'r fath dan warant y credir ei fod yn bwrpasol;

3.2.11. Caffael cyfraniadau i'r Elusen drwy apêl bersonol neu ysgrifenedig, cyfarfodydd cyhoeddus neu fel arall;

3.2.12. Buddsoddi arian Yr Elusen nad oes ei angen ar unwaith ar gyfer amcanion mewn buddsoddiadau, gwarant neu eiddo pwrpasol, yn ddibynnol er hynny ar amodau (os yn berthnasol) a fydd yn cael eu gosod neu drwy reidrwydd cyfreithiol;

3.2.13. Darparu cymorth a chefnogaeth cynghori i bobl â HIV, AIDS a chyflyrau sy'n perthyn i AIDS, ac i bartneriaid, teuluoedd a chyfeillion;

3.2.14. Sefydlu cynnal a datblygu gwasanaeth ymgynghori cyfrinachol, rhad ac am ddim er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor i unigolyn neu grŵp;

3.2.15. Archwilio anghenion teuluoedd a chyfeillion sy'n dioddef y straen a ddaw yn sgil HIV ac AIDS fel problemau amgylcheddol, personol a/neu gymdeithasol ac ystyried y peirianwaith cymdeithasol angenrheidiol i gynorthwyo'r rhai sy'n dioddef;

3.2.16. Gwneud pob peth cyfreithiol angenrheidiol ar gyfer cyflawni amcanion o'r fath.

4. Aelodaeth

4.1. Mae aelodaeth yn agored i unrhyw berson sy'n tanysgrifio i'r Cyfansoddiad hwn ac y mae'r Pwyllgor Rheoli yn dymuno eu derbyn fel aelodau. Ni chaniateir aelodaeth gorfforaethol.

4.2. Gall y Pwyllgor Rheoli ddiddymu aelodaeth person drwy benderfyniad gyda mwyafrif o ddwy ran o dair o'r Pwyllgor Rheoli sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

4.3. Gall aelod derfynu ei h/aelodaeth ar unrhyw adeg drwy rybudd ysgrifenedig i'r Pwyllgor Rheoli.

4.4. Rhaid i bob aelod sydd am weithio'n gyhoeddus ar ran Yr Elusen ddilyn hyfforddiant pwrpasol fel y nodir gan y Pwyllgor Rheoli.

4.5. Tanysgrifiadau - mae Aelodaeth Yr Elusen ar sail flynyddol. Ar gychwyn yr aelodaeth bydd angen talu tanysgrifiad. Rhaid adnewyddu tanysgrifiadau ar 1 Ebrill bob blwyddyn. Mae'r swm sy'n cael ei danysgrifio ar aelodaeth ac wedi hynny yn ddibynnol ar ddisgresiwn y Pwyllgor Rheoli.

5. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp unwaith ym mhob blwyddyn ariannol, fel rheol heb fod yn hwyrach na diwedd Rhagfyr ac ni fydd mwy na 15 mis rhwng dyddiad un Cyfarfod Blynyddol a'r un nesaf er mwyn

5.1. derbyn adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor Rheoli, a datganiad ariannol wedi'i archwilio neu archwilio'n annibynnol (fel bo'n briodol), a'u mabwysiadu os fyddant yn cael eu cymeradwyo;

5.2. penodi Archwiliwr neu Archwiliwr Annibynnol (fel bo'n briodol) a fydd yn gymwys;

5.3. penodi Pwyllgor Rheoli a fydd yn cynnwys pum person o leiaf, a dim mwy na deg, a fydd yn cael eu penodi ac yn ymddeol fel a ganlyn:

5.3.1. Penodiad ac ymddeoliad aelodau Pwyllgor Rheoli.

5.3.1.1. Yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf yn dilyn cyflwyno'r cymal newydd hwn (a fydd yn cael ei gynnal yn y flwyddyn 01-02) bydd holl aelodau'r pwyllgor rheoli yn gadael eu swyddi, ac ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol canlynol, bydd tro un rhan o dair (neu'r nifer agosaf at hynny) o'r aelodau pwyllgor rheoli i ymddeol o'u swyddi; ond, os mai tro un aelod pwyllgor rheoli yn unig ydyw, bydd yntau yn ymddeol.

5.3.1.2. Yr aelodau pwyllgor rheoli a fu am yr amser hiraf yn eu swyddi ers eu penodiad neu ailbenodiad diwethaf fydd yn ymddeol, ond os fydd nifer o bobl wedi eu penodi neu eu hailbenodi yn aelodau pwyllgor rheoli ar yr un dydd, dewisir y sawl a fydd yn ymddeol drwy dynnu enwau o het (oni bai eu bod yn dod i gytundeb ymysg eu hunain).

5.3.1.3. Os nad yw'r Elusen yn llenwi swyddi'r aelodau pwyllgor rheoli yn y cyfarfod lle maent ymddeol yn eu tro, gellir ystyried bod yr aelodau pwyllgor rheoli, os ydynt yn cytuno, yn cael eu hailbenodi oni bai bod penderfyniad yn y cyfarfod i beidio llenwi'r swydd neu fod cynnig i ailbenodi'r aelod pwyllgor rheoli yn cael ei wrthod yn y pwyllgor.

5.3.1.4. Ni phenodir unrhyw berson, ac eithrio aelod pwyllgor rheoli sy'n ymddeol yn ei dro, yn aelod o'r pwyllgor rheoli mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol oni bai:

5.3.1.4.1. ei fod yn cael ei argymell gan aelodau'r pwyllgor rheoli; neu

5.3.1.4.2. bod rhybudd gan aelod sy'n gymwys i bleidleisio yn y cyfarfod wedi'i roi i'r Elusen am y bwriad i argymell y person ar gyfer ei benodi neu ailbenodi, dim llai na phedwar diwrnod ar ddeg a dim mwy na thri deg pump o ddiwrnodau cyn y dyddiad a benodwyd ar gyfer y cyfarfod, gan nodi'r manylion a fyddai, pe bai yn cael ei benodi neu ei ailbenodi, yn angenrheidiol eu cynnwys yng nghofrestr yr Elusen o aelodau pwyllgor rheoli gyda datganiad gan y person o'i barodrwydd i gael ei benodi neu ailbenodi.

5.3.1.5. Ni chaiff unrhyw berson ei benodi fel aelod o'r pwyllgor rheoli:

5.3.1.5.1. os ydynt yn iau na 18 oed oni bai bod yr elusen yn gwmni cofrestredig; neu

5.3.1.5.2. dan amgylchiadau a fyddai, pe bai eisoes yn aelod o bwyllgor rheoli, wedi ei eithrio rhag gweithredu dan ddarpariaethau Erthygl 38.

5.3.1.6. Bydd pob person sy'n gymwys i dderbyn rhybudd o'r cyfarfod yn derbyn hysbysiad o leiaf saith diwrnod a dim mwy na wyth diwrnod ar hugain cyn dyddiad y cyfarfod cyffredinol, am bob person (ac eithrio aelodau pwyllgor rheoli sy'n ymddeol yn eu tro yn y cyfarfod) sy'n cael ei argymell gan aelodau'r pwyllgor rheoli ar gyfer ei benodi neu ailbenodi fel aelod pwyllgor rheoli yn y cyfarfod, neu o ran y rhai y mae'r Elusen wedi cael rhybudd o'r bwriad i'w h/argymell yn y cyfarfod i'w benodi neu ailbenodi fel aelod pwyllgor rheoli. Bydd y rhybudd yn

rhoi manylion y person a fyddai, pe bai yn cael ei benodi neu ailbenodi, angen eu cynnwys yng nghofrestr yr Elusen o aelodau pwyllgor rheoli.

5.3.1.7. Yn ddibynnol ar yr hyn a nodwyd uchod, gall yr Elusen benodi, drwy gynnig cyffredin, berson sy'n fodlon gweithredu fel aelod pwyllgor rheoli naill ai i lenwi swydd wag neu fel aelod pwyllgor rheoli ychwanegol, a gall hefyd benderfynu ar drefn ymddeoliad aelodau pwyllgor rheoli ychwanegol.

5.3.1.8. Gall aelodau'r pwyllgor rheoli benodi person sy'n fodlon gweithredu fel aelod pwyllgor rheoli naill ai i lenwi swydd wag neu fel aelod ychwanegol o'r pwyllgor rheoli os na fydd y penodiad yn achosi i nifer yr aelodau pwyllgor rheoli fod yn uwch nag unrhyw nifer a osodwyd, neu yn unol gyda'r darpariaethau yng nghymal 5.3, fel mwyafswm aelodau pwyllgor rheoli. Bydd aelod pwyllgor rheoli a benodwyd felly yn dal ei swydd hyd at y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf yn unig, ac ni fydd yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar yr aelodau pwyllgor rheoli sydd i ymddeol yn eu tro yn y cyfarfod. Os nad yw'n cael ei ailbenodi yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol, bydd yn gadael ei swydd ar ddiwedd y cyfnod.

5.3.1.9. Yn ddibynnol ar yr hyn a nodwyd uchod, gellir ailbenodi aelod pwyllgor rheoli sy'n ymddeol mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol, os yw'n cytuno.

5.4. delio gydag unrhyw fater y mae'r Pwyllgor Rheoli neu unrhyw aelodau unigol yn dymuno eu cyflwyno i'r aelodau os cafwyd y rhybudd angenrheidiol.

5.5. Y rhai sydd wedi tanysgrifio ar adeg y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn unig sy'n gymwys i bleidleisio yn y cyfarfod hwnnw. Serch hynny, ni chaniateir tanysgrifiadau newydd nac adnewyddu tanysgrifiadau ar ddiwrnod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

5.6. Cadeirydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fydd yn cael ail bleidlais neu bleidlais fwrw os fydd nifer cyfartal o bleidleisiau.

6. Y Pwyllgor Rheoli

6.1. Bydd y Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn.

6.2. Bydd y Pwyllgor Rheoli yn ceisio cyflawni nodau ac amcanion Yr Elusen.

6.3. Bydd y Pwyllgor Rheoli yn penderfynu ar natur y swyddi sy'n agored i etholiad.

6.4. Yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Rheoli yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol bydd yn ethol:

6.4.1. Cadeirydd

6.4.2. Trysorydd a fydd yn gyfrifol am ddarparu cyfrif am yr holl arian sy'n cael ei wario a'i dderbyn gan neu ar ran y Pwyllgor Rheoli

6.4.3. Ysgrifennydd a fydd yn gyfrifol am:

6.4.3.1. Anfon rhybudd o agenda a chynigion y cyfarfodydd at aelodau'r Pwyllgor Rheoli

6.4.3.2. Cofnodi, mewn llyfr pwrpasol, gofnodion cywir o drefn a chynigion unrhyw gyfarfod Pwyllgor Rheoli

6.4.3.3. Rhoi rhybudd o leiaf 28 diwrnod o flaen llaw am ddyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

6.4.3.4. Hysbysu aelodau bod yn rhaid cyflwyno unrhyw gynnig yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd o leiaf wyth diwrnod ar hugain cyn dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

6.4.3.5. Anfon copïau o'r agenda ac unrhyw gynigion neu gynigion a dderbyniwyd at aelodau o leiaf bedwar diwrnod ar ddeg cyn dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

6.5. Bydd cworwm yn cynnwys tri aelod o'r Pwyllgor Rheoli ar yr amod bod dau o leiaf yn aelodau etholedig o'r Pwyllgor Rheoli.

6.6. Bydd y Pwyllgor Rheoli yn ceisio codi arian grantiau cymorth ac mae ganddo'r grym i gytundebu gyda chyrff o'r fath ar gyfer darparu gwasanaethau.

6.7. Gall y Pwyllgor Rheoli gyflogi Cydlynydd, a chyflogi staff eraill y maent yn barnu eu bod yn angenrheidiol (heb fod yn aelodau o'r Pwyllgor Rheoli).

6.8. Bydd y Pwyllgor Rheoli yn datblygu polisi cyfle cyfartal ac yn ymgymryd i beidio camwahaniaethu ar sail ethnigrwydd, crefydd, rhyw, rhywioldeb neu anabledd. Ni fydd hyn yn rhwystro targedu is-grwpiau penodol ar gyfer gwasanaethau a gynigir na recriwtio unigolion o is-grwpiau penodol

mewn swyddogaethau cyflogedig neu ddigyflog lle caniateir gan ddeddfwriaeth gyfredol a lle bo'n fwyaf addas ar gyfer cyflawni gwasanaethau.

6.9. Bydd y Pwyllgor Rheoli yn ceisio annog unigolion HIV positif a defnyddwyr y gwasanaeth beth bynnag eu statws i sefyll ar gyfer y Pwyllgor Rheoli ar adegau priodol lle ceisir enwebiadau.

6.10. Bydd y Pwyllgor Rheoli yn cydnabod y posibilrwydd bod gan aelodau HIV positif o'r Pwyllgor Rheoli anghenion arbennig, ac efallai y bydd angen cyfnodau o absenoldeb, a bydd yn ymdrechu, pan fo'n briodol, i gefnogi unigolion o'r fath wrth barhau i gyfrannu at weithgareddau'r Pwyllgor Rheoli, a all gynnwys penodi llefarydd i weithredu ar ran yr unigolyn.

7. Rheolau gweithdrefnau'r holl Gyfarfodydd

7.1. Ac eithrio'r ddarpariaeth arall, bydd cworwm cyfarfod Yr Elusen neu unrhyw bwyllgor a benodir yn un chwarter o gyfanswm aelodaeth Yr Elusen neu'r pwyllgor (fel bo'n briodol) neu unrhyw niferoedd eraill y bydd Yr Elusen yn ei benderfynu o bryd i'w gilydd yn y Cyfarfod Cyffredinol.

7.2. Bydd pleidleisio - ac eithrio lle darparwyd yn wahanol - ar yr holl faterion yn arwain at benderfyniad drwy fwyafrif syml o'r rhai presennol, sy'n aelodau cofrestredig ac yn gymwys i bleidleisio, ac yn peidio ag ymatal. Gall y Pwyllgor Rheoli wneud trefniadau o bryd i'w gilydd am bleidlais procsi, pleidlais gudd, neu bleidlais bost aelodau cofrestredig. Ni ddylai person gael mwy nag un bleidlais, ond os bydd pleidlais gyfartal bydd Cadeirydd y cyfarfod yn cael ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

7.3. Cedwir Llyfrau Cofnodion gan y Pwyllgor Rheoli a bydd y pwyllgorau eraill a'r ysgrifenyddion priodol yn nodi cofnod am yr holl weithdrefnau a chynigion yn y Llyfr Cofnodion.

7.4. Rheolau Sefydlog a Rheolau:
Bydd gan y Pwyllgor Rheoli rym i fabwysiadu a dosbarthu Rheolau Sefydlog ac/neu Reolau ar gyfer y Grŵp. Bydd Rheolau Sefydlog ac/neu Reolau yn weithredol ar unwaith yn ddibynnol ar adolygiad gan y Grŵp yn y Cyfarfod Cyffredinol a heb fod yn anghyson gyda darpariaethau'r Cyfansoddiad hwn.

8. Cyllid

8.1. Mae'r holl incwm yn eiddo i'r Elusen.

8.2. Bydd gan y Pwyllgor Rheoli gyfrif gyda sefydliad ariannol. Bydd pob cyfrif o'r fath yn gofyn am lofnod o leiaf ddau berson a awdurdodwyd gan y Pwyllgor Rheoli.

8.3. Bydd y flwyddyn ariannol yn rhedeg o 1 Ebrill hyd at 31 Mawrth.

8.4. Telir unrhyw gostau rhesymol a godir gan aelodau yn rhinwedd eu dyletswyddau, neu unrhyw un sy'n cael ei awdurdodi felly gan y Pwyllgor Rheoli. Rhaid i bob cais am gostau ar ran Yr Elusen gael eu hanfon at y Cydlynydd a'u monitro'n gyson gan y Trysorydd.
Ni fydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Rheoli yn derbyn unrhyw fudd o eiddo sy'n perthyn i'r Elusen (ac eithrio fel Ymddiriedolwr Yr Elusen) nac yn derbyn taliadau nac yn cael budd (ac eithrio fel aelod o'r Pwyllgor Rheoli) mewn unrhyw gytundeb gyda'r Pwyllgor Rheoli.

8.5. Bydd y Pwyllgor Rheoli yn cydymffurfio gyda'u rhwymedigaethau dan y Ddeddf Elusennau 1993 (neu unrhyw ailddeddfiad neu addasiad o'r Ddeddf honno) o ran:
8.5.1. Cadw cofnodion cyfrifo'r Elusen;
8.5.2. Paratoi datganiadau ariannol blynyddol Yr Elusen;
8.5.3. Archwilio neu archwiliad annibynnol datganiadau ariannol Yr Elusen; a
8.5.4. Trosglwyddo datganiadau ariannol Yr Elusen i'r Comisiwn.

9. Cyfarfodydd Cyffredinol Arbennig

9.1. Gelwir Cyfarfod Cyffredinol Arbennig i ystyried unrhyw newid neu addasiad i'r Cyfansoddiad hwn.

9.2. Gellir galw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig gan y Pwyllgor Rheoli am reswm digonol mewn ymgynghoriad gyda'r Ymddiriedolwyr Daliadau neu ddwy ran o dair o aelodau Yr Elusen, gan roi'r rheswm dros alwad o'r fath yn ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Pwyllgor Rheoli.

9.3. Bydd yr Ysgrifennydd yn:

9.3.1. Hysbysu aelodau yn ysgrifenedig am ddyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig o leiaf wyth diwrnod ar hugain o flaen llaw;

9.3.2. Anfon copïau o unrhyw gynigion neu gynigion a dderbyniwyd sy'n rheswm dros alw Cyfarfod o'r fath ac i'w hystyried yn y Cyfarfod, at yr aelodau ar yr un pryd.

10. Rhybudd

Gellir cyflwyno unrhyw rybudd gan yr Ysgrifennydd i unrhyw aelod naill ai yn bersonol neu i gynrychiolydd penodol fel bo'n briodol, neu drwy ei anfon drwy'r post mewn llythyr wedi'i gyfeirio at aelod yn ei gyfeiriad hysbys diwethaf yn y Deyrnas Gyfunol, a bydd unrhyw lythyr a anfonwyd felly yn cael ei farnu ei fod wedi'i dderbyn o fewn saith diwrnod i'w bostio.

11. Rheol Gyffredinol

Ni fydd unrhyw aelod unigol yn gweithredu'n gyhoeddus nac yn gwneud unrhyw ddatganiad cyhoeddus yn enw'r Elusen, nac yn gwneud unrhyw beth yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i bortreadu bod unrhyw argymhelliad, gweithred neu ddatganiad ffaith neu farn wedi'i gymeradwyo gan Yr Elusen, y Pwyllgor Rheoli nac unigolyn a benodir o dro i dro. Y Pwyllgor Rheoli neu unigolyn wedi'i awdurdodi gan y Pwyllgor Rheoli yn unig all wneud datganiadau a chyhoeddiadau yn enw'r Elusen.

12. Dehongli

Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer y Cyfansoddiad hwn, fel y mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

13. Gwelliannau

13.1. Yn ddibynnol ar ddarpariaethau canlynol y cymal hwn, gellir addasu'r Cyfansoddiad gan gynnig a basiwyd gan o leiaf ddwy ran o dair o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol.

13.2. Rhaid i Ysgrifennydd y Grŵp dderbyn cynnig am welliant i'r Cyfansoddiad o leiaf un diwrnod ar hugain cyn dyddiad y cyfarfod lle mae'r cynnig i'w gyflwyno.

13.3. Rhaid i'r Ysgrifennydd roi o leiaf pedwar diwrnod ar ddeg o rybudd am gyfarfod o'r fath i'r aelodaeth.

13.4. Rhaid i rybudd y cyfarfod cyffredinol gynnwys rhybudd o'r cynnig gan osod amodau'r gwelliant sy'n cael ei argymell.

13.5. Ni ellir gwneud gwelliant i gymal 1, cymal 3 (gan gynnwys is-gymalau), cymal 8.4, cymal 14, na'r cymal hwn heb ganiatâd y Comisiwn Elusennau o flaen llaw .

13.6. Ni ellir gwneud unrhyw welliant a fyddai'n arwain at wneud i'r Elusen beidio â bod yn elusen yn llygad y gyfraith.

13.7. Yn ychwanegol at ofynion eraill cymal 13, anogir y Pwyllgor Rheoli, pan fo amser yn caniatáu, i geisio cymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau o flaen llaw ar gyfer yr holl welliannau sy'n cael eu hargymell ar gyfer y Cyfansoddiad.

13.8. Dylai'r Pwyllgor Rheoli anfon copi o unrhyw welliant dan y cymal hwn ar unwaith at y Comisiwn Elusennau.

14. Diddymiad

Gellir diddymu Yr Elusen gan Gynnig sy'n cael ei basio gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r rhai sy'n bresennol ac yn pleidleisio mewn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig sydd wedi ymgasglu at y pwrpas, gydag un diwrnod ar hugain o rybudd (i'r aelodau). Gall cynnig o'r fath roi cyfarwyddyd ar gyfer gwaredu unrhyw asedau sy'n cael eu dal gan, neu yn enw Yr Elusen, gyda'r amod os fydd unrhyw eiddo yn parhau ar ôl talu bob dyled a rheidrwydd, na fydd eiddo o'r fath yn cael ei dalu na'i ddosbarthu ymysg aelodau Yr Elusen, ond yn hytrach yn cael ei roi neu drosglwyddo i sefydliad/au elusennol eraill ag amcanion tebyg i rai neu holl amcanion Yr Elusen, yn ôl penderfyniad Yr Elusen, ac os na ellir ystyried y ddarpariaeth hon, ac yna at ddiben elusennol arall. Rhaid anfon copi o'r datganiad ariannol, neu gyfrif a datganiad, ar gyfer cyfnod ariannol terfynol Yr Elusen at y Comisiwn.

Mabwysiadwyd ar 30 Gorffennaf 2001